# Mesur Gwastraff (Cymru) 2010

**2010 mccc 8**

Mesur gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth ynghylch pen taith enillion o daliadau a godir am fagiau siopa untro; i wneud darpariaeth ynghylch y targedau sydd i'w cyrraedd gan awdurdodau lleol mewn perthynas â gwastraff; i wneud darpariaeth ynghylch gwahardd neu reoleiddio fel arall y weithred o ollwng gwastraff ar safle tirlenwi; i ddarparu ar gyfer cynlluniau rheoli gwastraff safle i weithfeydd sy'n cynnwys adeiladu neu ddymchwel; ac at ddibenion cysylltiedig.

**Mae'r Mesur hwn, a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 2 Tachwedd 2010 ac a gymeradwywyd gan Ei Mawrhydi yn Ei Chyngor ar 15 Rhagfyr 2010, yn deddfu'r darpariaethau a ganlyn:–**

*Bagiau siopa untro*

### 1 Y taliadau a godir am fagiau siopa untro: pen taith yr enillion

(1) Mae Atodlen 6 i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 wedi ei diwygio'n unol â'r adran hon.

(2) Ar ôl paragraff 4 mewnosoder–

*"Destination of proceeds – Wales*

4A (1) This paragraph applies to regulations made by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) The regulations may provide for the application of the net proceeds of the charge to specified purposes.

(3) Regulations under sub-paragraph (2) may (among other things)–

(a) require sellers to apply the net proceeds of the charge to any one or more specified purposes;

(b) provide for any duty imposed under paragraph (a) to be discharged (subject to any provision made under paragraph (c))

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** *Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 19 Chwefror 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

by the net proceeds of the charge being accepted by any one or more of the following persons–

(i) specified persons;

(ii) persons who fall within a specified category of person;

(c) make provision about the arrangements under which the net proceeds of the charge are to be given by sellers to the persons mentioned in paragraph (b) or any other person;

(d) require persons who accept any net proceeds of the charge under paragraph (b) to apply the proceeds to any one or more specified purposes;

(e) provide for recovery by the Welsh Ministers of sums equal to the proceeds of the charge that have been accepted or applied otherwise than in accordance with provision made under sub-paragraph (2);

(f) provide for the application of sums recovered under paragraph (e) to specified purposes (this includes making provision to the effect that such sums are not to be paid into the Welsh Consolidated Fund);

(g) require the Welsh Ministers to give guidance about compliance with the regulations.

(4) The purposes that may be specified under sub-paragraph (2) are limited to purposes relating to any of the following–

(a) preventing or reducing waste;

(b) the collection, management, treatment or disposal of waste;

(c) protecting or improving the environment in relation to pollution or nuisances;

(d) educational or recreational activities for children or young people which relate to any of the matters specified in paragraphs (a) to (c).

(5) But purposes concerning the production of renewable energy for consumption in transport or the use of that energy in transport may not be specified under sub-paragraph (2).

(6) The regulations may make provision for regulations under this Schedule to apply to persons other than sellers, if the Welsh Ministers consider that such provision is appropriate for the enforcement of provision made under sub-paragraph (2) or for otherwise making such provision effective.

(7) The specified factors under paragraph 3(2)(c) may also include–

(a) a seller's arrangements for applying the net proceeds of the charge, or

(b) any other factor that the Welsh Ministers consider appropriate, whether or not that factor is of the same kind as the factors listed in that paragraph.

(8) The regulations may provide for exceptions and exemptions.

*Interpretation of paragraph 4A*

4B (1) This paragraph applies for the purposes of paragraph 4A.

(2) "Children" means persons who have not attained the age of 18.

(3) "Pollution" means pollution of the air, water or land which may give rise to any environmental harm, including (but not limited to) pollution caused by light, noise, heat or vibrations or any other kind of release of energy.

(4) For the purposes of the definition in sub-paragraph (3), "environmental harm" means any of the following–

(a) harm to the health of humans and other living organisms;

(b) harm to the quality of the environment, including–

(i) harm to the quality of the environment taken as a whole,

(ii) harm to the quality of the air, water or land, and

(iii) other impairment of, or interference with, the ecological systems of which any living organisms form part;

(c) offence to the senses of human beings;

(d) damage to property;

(e) impairment of, or interference with, the amenity of the environment or any legitimate use of the environment.

(5) For the purposes of sub-paragraphs (3) and (4), "air" includes (but is not limited to) air within buildings and air within other natural or man-made structures above or below ground.

(6) "Nuisance" means an act or omission affecting any place, or a state of affairs in any place, which may impair, or interfere with, the amenity of the environment or any legitimate use of the environment.

(7) "Net proceeds of the charge" has the same meaning as in paragraph 7(4).

(8) "Young people" means persons who have attained the age of 18, but not the age of 25.".

(3) Ar ôl paragraff 7(3) mewnosoder–

"(3A) Regulations made by the Welsh Ministers may also require the publication or supply of records or information relating to the amount received by a person from a seller by way of net proceeds of the charge to be applied to purposes specified under paragraph 4A(2).".

(4) Ar ôl paragraff 8(2) mewnosoder–

"(2A) Regulations made by the Welsh Ministers may also confer powers on an administrator to question a person the administrator reasonably believes has received any net proceeds of the charge or officers or employees of such a person.".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 21(2)**

**2 Rheoliadau: y weithdrefn**

Yn adran 77 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, ar ôl is-adran (4)(a) mewnosoder–

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** *Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 19 Chwefror 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

"(aa) they are the first regulations to be made by the Welsh Ministers under paragraph 4A of the Schedule,".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 2 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 21(2)**

*Targedau gwastraff*

**3 Targedau ar gyfer ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio**

(1) Pennir y targedau ar gyfer ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio yn is-adrannau (2) a (3).

(2) Rhaid i awdurdod lleol sicrhau yr adenillir, drwy gyfrwng unrhyw un o'r gweithrediadau a bennir yn is-adran (5), o leiaf y maint targed o'i wastraff bwrdeistrefol–

(a) bob blwyddyn ariannol darged, a

(b) bob blwyddyn ariannol ddilynol tan y flwyddyn ariannol darged nesaf.

(3) Yn y tabl canlynol–

(a) mae colofn 1 yn pennu'r maint targed ar gyfer blwyddyn ariannol darged (a'r blynyddoedd ariannol sy'n dod o fewn is-adran (2)(b)), a

(b) mae colofn 2 yn pennu'r flwyddyn ariannol darged y mae'r maint targed yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 1 yn gymwys iddi.

TABL

| Maint targed | Blwyddyn ariannol darged |
|---|---|
| 52% | 2012/13 |
| 58% | 2015/16 |
| 64% | 2019/20 |
| 70% | 2024/25 |

(4) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r tabl hwn drwy orchymyn.

(5) Y gweithrediadau y cyfeiriwyd atynt yn is-adran (2) yw–

(a) ailgylchu;

(b) paratoi i ailddefnyddio;

(c) compostio (gan gynnwys unrhyw ffurf arall ar drawsnewid drwy brosesau biolegol).

(6) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy orchymyn i ganfod a yw gwastraff yn cael ei ailgylchu, ei baratoi i'w ailddefnyddio, neu ei gompostio at ddibenion y targedau o dan yr adran hon.

(7) Mae awdurdod lleol nad yw'n cyrraedd targed ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio yn agored i gosb sydd i'w thalu i Weinidogion Cymru.

(8) At ddibenion yr adran hon, gwastraff trefol awdurdod lleol o flwyddyn ariannol darged yw maint cyfan pob un o'r canlynol yn ôl pwysau–

(a) yr holl wastraff a gasglwyd yn y flwyddyn honno gan awdurdod lleol o dan adran 45 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990;

(b) yr holl wastraff a ollyngwyd yn y flwyddyn honno mewn mannau a ddarparwyd gan awdurdod lleol o dan is-adrannau (1)(b) a (3) o adran 51 o'r Ddeddf honno;

(c) unrhyw wastraff arall a bennir drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

(9) Yn yr adran hon, ystyr "blwyddyn ariannol" yw cyfnod o 12 mis sy'n diweddu ar 31 Mawrth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 3 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 21(1)**

**I4** A. 3 mewn grym ar 4.3.2011 gan O.S. 2011/476, **ergl. 2**

## 4 Rheoliadau i osod targedau gwastraff

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau–

(a) pennu targedau gwastraff sydd i'w cyrraedd gan awdurdod lleol wrth arfer ei swyddogaethau;

(b) pennu dangosyddion y gellir cyfeirio atynt i fesur i ba raddau y mae awdurdod lleol yn bodloni'r targedau o dan baragraff (a);

(c) gosod atebolrwydd ar awdurdod lleol i dalu cosb i Weinidogion Cymru os na chyrhaeddir targed o dan baragraff (a).

(2) At ddibenion is-adran (1)(a), mae "targedau gwastraff" yn dargedau sy'n ymwneud ag atal, lleihau, casglu, rheoli, trin neu waredu gwastraff.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 4 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 21(2)**

## 5 Monitro ac archwilio cydymffurfedd â thargedau

(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau–

(a) ynghylch sut y mae cydymffurfedd ag unrhyw darged perthnasol i'w asesu;

(b) ynghylch trefniadau ar gyfer monitro ac archwilio cydymffurfedd ag unrhyw darged perthnasol;

(c) sy'n rhoi pwerau mynediad a phwerau arolygu mewn cysylltiad â'r monitro a'r archwilio hwnnw ar gyfer personau a awdurdodir gan Weinidogion Cymru;

(d) sy'n ei gwneud yn ofynnol i gofnodion gael eu cadw gan awdurdod lleol mewn cysylltiad â thargedau perthnasol;

(e) sy'n ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu gan awdurdod lleol i bersonau penodedig ar ffurf benodedig neu mewn dull penodedig mewn cysylltiad â thargedau perthnasol;

(f) sy'n ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei chyhoeddi mewn cysylltiad â thargedau perthnasol;

(g) sy'n gosod atebolrwydd ar awdurdod lleol i dalu cosb os yw'n methu â chydymffurfio â gofyniad mewn rheoliadau o dan unrhyw un neu unrhyw rai o baragraffau (b) i (f).

(2) Yn yr adran hon, "targedau perthnasol" yw–

(a) targedau ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio o dan adran 3;

(b) unrhyw dargedau gwastraff o dan adran 4(1)(a).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** A. 5 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 21(2)**

## 6 Rheoliadau am gosbau

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i gosbau o dan adran 3(7), adran 4(1)(c) ac adran 5(1)(g).

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau–

(a) pennu symiau cosbau neu reolau ar gyfer cyfrifo'r symiau hynny;

(b) gwneud darpariaeth ynghylch pryd y mae taliadau o ran cosbau yn ddyledus;

(c) gwneud darpariaeth ar gyfer llog pan fo taliadau o ran cosbau yn ddyledus ond heb eu gwneud;

(d) gwneud darpariaeth ar gyfer adennill neu wrth-hawlio, a sicrhau, symiau, o ran cosbau a llog, sydd heb eu talu;

(e) gwneud darpariaeth ynghylch hepgor cosbau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** A. 6 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 21(2)**

## 7 Canllawiau

Wrth arfer ei swyddogaethau o dan adrannau 3 i 6, rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau o roddir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** A. 7 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 21(2)**

## 8 Ymgynghori

(1) Cyn gwneud gorchymyn neu reoliadau o dan adran 3 neu reoliadau o dan adrannau 4, 5 neu 6, neu rhoi canllawiau o dan adran 7, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol–

(a) **[**[F1]Corff Adnoddau Naturiol Cymru**]**;

(b) pob awdurdod lleol;

(c) unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn barnu eu bod yn briodol.

(2) At ddibenion is-adran (1), mae ymgynghoriad sydd wedi ei wneud cyn pasio'r Mesur hwn yn cael effaith fel pe bai wedi ei wneud ar ôl ei basio.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn a. 8(1)(a) wedi eu hamnewid (1.4.2013) gan Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 (O.S. 2013/755), ergl. 1(2), **Atod. 3 para. 2** (ynghyd ag Atod. 7)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** A. 8 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 21(2)**

*[F2 Gwaredu ar safle tirlenwi neu drwy losgi]*

**Diwygiadau Testunol**

**F2** croes bennawd wedi ei amnewid (18.10.2023) gan Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (anaw 3), a. 88(3)(b), **Atod. 2 para. 17(2)**; O.S. 2023/1096, ergl. 2(e)

## 9 Rheoliadau sy'n gwahardd gollwng gwastraff ar safle tirlenwi

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ar gyfer gwahardd neu reoleiddio fel arall y weithred o ollwng mathau penodedig o wastraff ar safle tirlenwi yng Nghymru, ac mewn cysylltiad â'i wahardd neu ei reoleiddio.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud y canlynol (ymhlith pethau eraill)–

(a) diwygio rheoliadau a wnaed o dan adran 2 o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 ac sy'n ymwneud â dull gweithredu safle tirlenwi;

(b) darparu ar gyfer tramgwyddau mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â darpariaeth a wnaed o dan y rheoliadau;

(c) darparu ar gyfer cosbau mewn perthynas â'r tramgwyddau hynny;

(d) darparu ar gyfer awdurdodau gorfodi a swyddogaethau'r awdurdodau hynny.

(3) Yn is-adran (1), mae i "safle tirlenwi" yr ystyr a roddir i "landfill" yn Erthygl 2(g) o Gyfarwyddeb y Cygnor 1999/31/EC dyddiedig 26 Ebrill 1999 am dirlenwi gwastraff **[F3**, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan **[F4**Gyfarwyddeb (EU) 2018/850**]]****[F5**, a'i darllen fel pe bai—

(a) yn Erthygl 2—

(i) y canlynol wedi ei roi yn lle pwynt (a)—

"(a) 'waste' has the meaning given by Article 3(1) of the Waste Framework Directive, as read with Articles 5 and 6 of that Directive;";

(ii) y canlynol wedi ei roi yn lle pwynt (c)—

"(c) 'hazardous waste' has the meaning given in Article 3(2) of the Waste Framework Directive.";

(b) yn Erthygl 3(2), "Without prejudice to existing Community legislation," wedi ei hepgor.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F3** Geiriau yn a. 9(3) wedi eu mewnosod (22.3.2019) gan Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/414), rhlau. 1(2)(a), **2(2)**

**F4** Geiriau yn a. 9(3) wedi eu hamnewid (19.11.2020) gan Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2020 (O.S. 2020/1179), rhlau. 1(2), **2(2)**

**F5** A. 9(3)(a)(b) ac geiriau wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/414), rhlau. 1(2)(b), **6(2)**; (as wedi eu hamnewid gan O.S. 2020/1339, rhlau. 1(3), **2(2)(a)**); 2020 c. 1, **Atod. 5 para. 1(1)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** A. 9 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 21(2)**

### [F6 9A Rheoliadau sy'n gwahardd llosgi gwastraff

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ar gyfer gwahardd neu reoleiddio fel arall y weithred o losgi mathau penodedig o wastraff yng Nghymru, ac mewn cysylltiad â'i wahardd neu ei reoleiddio.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud y canlynol (ymhlith pethau eraill)—

(a) diwygio rheoliadau a wnaed o dan adran 2 o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 sy'n ymwneud â gweithrediad peiriannau llosgi gwastraff neu beiriannau cydlosgi gwastraff;

(b) darparu ar gyfer tramgwyddau mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â darpariaeth a wnaed o dan y rheoliadau;

(c) darparu ar gyfer cosbau mewn perthynas â'r tramgwyddau hynny;

(d) darparu ar gyfer awdurdodau gorfodi a swyddogaethau'r awdurdodau hynny.

(3) Yn yr adran hon—

mae i "peiriant cydlosgi gwastraff" yr ystyr a roddir i "waste co-incineration plant" yn Erthygl 3(41) o Gyfarwyddeb 2010/75/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor ar allyriadau diwydiannol (atal a rheoli llygredd integredig) (Ail-lunio);

mae i "peiriant llosgi gwastraff" yr ystyr a roddir i "waste incineration plant" yn Erthygl 3(40) o'r Gyfarwyddeb honno;

ystyr "llosgi" ("*incineration*") mewn perthynas â gwastraff, yw—

(a) llosgi gwastraff mewn peiriant llosgi gwastraff neu beiriant cydlosgi gwastraff, a

(b) unrhyw driniaethau thermol eraill i'r gwastraff cyn ei losgi.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F6** A. 9A wedi ei fewnosod (18.10.2023) gan Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (anaw 3), **aau. 67**, 88(3)(b); O.S. 2023/1096, ergl. 2(b)

### 10 Sancsiynau sifil mewn cysylltiad â [F7 thramgwyddau a grëir gan reoliadau o dan adrannau 9 a 9A]

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 9(1) **[**F8 neu 9A(1)**]** wedi ei arfer neu'n cael ei arfer yn y fath fodd ag i greu tramgwydd.

(2) [F9Caniateir arfer y pŵer i] wneud, mewn perthynas ag awdurdod gorfodi, ddarpariaeth y gellid ei gwneud drwy orchymyn o dan Ran 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 ("RESA 2008") fel pe byddai, at ddibenion Rhan 3 o'r Ddeddf honno–

(a) yr awdurdod gorfodi yn rheoleiddiwr, a

(b) y tramgwydd yn dramgwydd perthnasol mewn perthynas â'r rheoleiddiwr hwnnw.

[F10(3) Ond nid yw adrannau 39(4) a 42(6) o RESA 2008 yn gymwys i'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud drwy reoliadau o dan adran 9(1) neu 9A(1) yn rhinwedd is-adran (2).]

(4) Mae adrannau 63 i 69 o RESA 2008 yn gymwys [F11pan fo rheoliadau o dan adran 9(1) neu 9A(1) yn gwneud darpariaeth yn rhinwedd is-adran (2) fel y maent yn gymwys pan wneir darpariaeth] o dan Ran 3 o RESA 2008 neu yn rhinwedd y Rhan honno.

(5) At ddibenion is-adran (4), mae'r cyfeiriadau at "regulator" yn adrannau 63 i 69 o RESA 2008 i'w darllen fel cyfeiriadau at awdurdod gorfodi.

(6) Yn yr adran hon, ystyr "awdurdod gorfodi" yw person sydd â swyddogaeth orfodi mewn perthynas â thramgwydd a grëwyd drwy reoliadau o dan adran 9(1) [F12neu 9A(1) (fel y bo'n briodol)] .

**Diwygiadau Testunol**

**F7** Geiriau yn a. 10 teitl wedi eu hamnewid (18.10.2023) gan Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (anaw 3), **aau. 68(3)**, 88(3)(b); O.S. 2023/1096, ergl. 2(c)

**F8** Geiriau yn a. 10(1) wedi eu mewnosod (18.10.2023) gan Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (anaw 3), **aau. 68(4)**, 88(3)(b); O.S. 2023/1096, ergl. 2(c)

**F9** Geiriau yn a. 10(2) wedi eu hamnewid (18.10.2023) gan Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (anaw 3), **aau. 68(5)**, 88(3)(b); O.S. 2023/1096, ergl. 2(c)

**F10** A. 10(3) wedi ei amnewid (18.10.2023) gan Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (anaw 3), **aau. 68(6)**, 88(3)(b); O.S. 2023/1096, ergl. 2(c)

**F11** Geiriau yn a. 10(4) wedi eu hamnewid (18.10.2023) gan Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (anaw 3), **aau. 68(7)**, 88(3)(b); O.S. 2023/1096, ergl. 2(c)

**F12** Geiriau yn a. 10(6) wedi eu mewnosod (18.10.2023) gan Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (anaw 3), **aau. 68(8)**, 88(3)(b); O.S. 2023/1096, ergl. 2(c)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** A. 10 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 21(2)**

## 11 Ymgynghori

(1) Cyn gwneud unrhyw reoliadau o dan adran 9 [F13neu 9A] , rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol–

(a) [F14Corff Adnoddau Naturiol Cymru];

(b) pob awdurdod lleol;

(c) unrhyw bersonau y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn cynrychioli buddiannau personau sy'n agored i fod yn ddarostyngedig i ddyletswyddau o dan y rheoliadau ac y mae Gweinidogion Cymru'n barnu eu bod yn briodol;

(d) unrhyw bersonau eraill y maent yn barnu eu bod yn briodol.

F15(2) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F13** Geiriau yn a. 11(1) wedi eu mewnosod (18.10.2023) gan Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (anaw 3), a. 88(3)(b), **Atod. 2 para. 17(3)(a)**; O.S. 2023/1096, ergl. 2(e)

**F14** Geiriau yn a. 11(1)(a) wedi eu hamnewid (1.4.2013) gan Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 (O.S. 2013/755), ergl. 1(2), **Atod. 3 para. 2** (ynghyd ag Atod. 7)

**F15** A. 11(2) wedi ei hepgor (18.10.2023) yn rhinwedd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (anaw 3), a. 88(3)(b), **Atod. 2 para. 17(3)(b)**; O.S. 2023/1096, ergl. 2(e)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I12** A. 11 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 21(2)**

*Cynlluniau rheoli gwastraff safle*

## 12 Cynlluniau rheoli gwastraff safle

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau o ddisgrifiad penodedig–

(a) paratoi cynlluniau ar gyfer rheoli a gwaredu gwastraff a gëir wrth lunio disgrifiadau penodedig o weithiau yng Nghymru sy'n cynnwys adeiladu neu ddymchwel;

(b) cydymffurfio â'r cynlluniau hynny.

(2) Caiff rheoliadau gynnwys darpariaeth hefyd ynghylch–

(a) yr amgylchiadau y mae'n rhaid paratoi cynlluniau odanynt;

(b) cynnwys y cynlluniau;

(c) awdurdodau gorfodi mewn perthynas â chynlluniau a swyddogaethau'r awdurdodau hynny;

(d) cadw cynlluniau a'u dangos i awdurdodau gorfodi;

(e) y dull o wneud cynlluniau gan Weinidogion Cymru neu awdurdod gorfodi sy'n gosod gofynion ar bersonau o ddisgrifiad penodedig i dalu ffioedd neu daliadau eraill a godir fel cyfrwng i adennill y costau rhesymol a dynnir gan awdurdod gorfodi wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan yr adran hon.

(3) Mae disgrifiadau o weithiau y caniateir eu pennu o dan is-adran (1) yn cynnwys (ymhlith pethau eraill) disgrifiad drwy gyfeirio at gost neu gost debygol y gweithiau hynny.

(4) Mae unrhyw reoliadau sydd wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru o dan adran 54 o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 ac sydd mewn grym yn union cyn i'r Rhan hon ddod i rym yn cael effaith fel petaent wedi eu gwneud o dan yr adran hon ac adran 13.

(5) Yn yr adran hon, nid yw "Cymru" yn cynnwys unrhyw ran o'r môr sy'n gyfagos i Gymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I13** A. 12 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 21(2)**

## 13 Tramgwyddau a chosbau

(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau–

(a) ar gyfer tramgwyddau mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â darpariaeth a wnaed o dan adran 12;

(b) ar gyfer cosbau mewn perthynas â'r tramgwyddau hynny;

(c) ar gyfer rhyddhau o atebolrwydd am dramgwydd o dan baragraff (a) drwy dalu cosb benodedig i awdurdod gorfodi o dan adran 12;

(d) ynghylch y ffyrdd y caniateir i daliadau a wneir o dan baragraff (c) gael eu defnyddio gan awdurdodau gorfodi sy'n arfer swyddogaethau o dan adran 12.

(2) Ni chaniateir i'r rheoliadau greu tramgwyddau–

(a) y gellir eu cosbi â chyfnod yn y carchar, neu

(b) y gellir eu cosbi ar gollfarn ddiannod â dirwy sy'n fwy na £50,000.

(3) Ni chaniateir i'r rheoliadau greu tramgwyddau o fethu â chydymffurfio â darpariaeth a wneir o dan adran 12(2)(e) y gellir eu cosbi ar gollfarn ddiannod â dirwy sy'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I14** A. 13 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 21(2)**

## 14 Sancsiynau sifil mewn cysylltiad â chynlluniau rheoli gwastraff safle

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 13 wedi ei arfer neu'n cael ei arfer yn y fath fodd ag i greu tramgwydd.

(2) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth, mewn perthynas ag awdurdod gorfodi, y gellid ei gwneud drwy orchymyn o dan Ran 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 ("RESA 2008") fel pe byddai, at ddibenion Rhan 3 o'r Ddeddf honno–

(a) yr awdurdod gorfodi yn rheoleiddiwr, a

(b) y tramgwydd yn dramgwydd perthnasol mewn perthynas â'r rheoleiddiwr hwnnw.

(3) Ond mae adran 49(1) o RESA 2008 yn cael ei haddasu wrth ei chymhwyso i dramgwyddau a grëwyd gan y rheoliadau fel y bydd y cyfeiriad at "£20,000" i'w ddarllen fel cyfeiriad at "level 5 on the standard scale".

(4) Mae adrannau 63 i 69 o RESA 2008 yn gymwys i ddarpariaeth a wneir o dan reoliadau o dan adran 13 neu yn rhinwedd y rheoliadau hynny fel y maent yn gymwys i ddarpariaeth a wneir o dan Ran 3 o RESA 2008 neu yn rhinwedd y Rhan honno.

(5) At ddibenion is-adran (4), mae'r cyfeiriadau at "regulator" yn adrannau 63 i 69 o RESA 2008 i'w darllen fel cyfeiriadau at awdurdod gorfodi.

(6) Yn yr adran hon, ystyr "awdurdod gorfodi" yw person sydd â swyddogaeth orfodi mewn perthynas â thramgwydd a grëwyd gan reoliadau o dan adran 13.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I15** A. 14 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 21(2)**

## 15 Canllawiau

Rhaid i berson sy'n awdurdod gorfodi o dan adran 12 roi sylw i ganllawiau a roddir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru pan fo'n arfer swyddogaethau awdurdod gorfodi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I16** A. 15 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 21(2)**

## 16 Ymgynghori

(1) Cyn gwneud unrhyw reoliadau o dan adran 12, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol–

(a) [F16 Corff Adnoddau Naturiol Cymru];

(b) pob awdurdod lleol;

(c) unrhyw bersonau y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn cynrychioli buddiannau personau sy'n agored i fod yn ddarostyngedig i ddyletswyddau o dan y rheoliadau ac y mae Gweinidogion Cymru'n barnu eu bod yn briodol;

(d) unrhyw bersonau eraill y maent yn barnu eu bod yn briodol.

(2) At ddibenion is-adran (1), mae ymgynghoriad sydd wedi ei wneud cyn pasio'r Mesur hwn yn cael effaith fel pe bai wedi ei wneud ar ôl ei basio.

**Diwygiadau Testunol**

**F16** Geiriau yn a. 16(1)(a) wedi eu hamnewid (1.4.2013) gan Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 (O.S. 2013/755), ergl. 1(2), **Atod. 3 para. 2** (ynghyd ag Atod. 7)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I17** A. 16 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 21(2)**

*Cyffredinol*

## 17 Dehongli

(1) Yn y Mesur hwn–

ystyr "awdurdod lleol" ("local authority") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr "gwastraff" ("waste") yw unrhyw beth–

(a) sy'n wastraff at ddibenion y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff, a

(b) nas eithriwyd o gwmpas y Gyfarwyddeb honno gan Erthygl 2 o'r Gyfarwyddeb honno;

ystyr "pennu" ("specified") yw pennu mewn rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, ac ystyr "penodedig" yw wedi ei bennu mewn rheoliadau o'r fath;

ystyr "swyddogaeth" ("function") yw pŵer neu ddyletswydd.

(2) At ddibenion y diffiniad o "gwastraff" yn is-adran (1), ystyr "y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff" yw Cyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 19 Tachwedd 2008 sy'n ymwneud â gwastraff ac sy'n diddymu Cyfarwyddebau penodol **[**F17, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan **[**F18Gyfarwyddeb (EU) 2018/851**]]****[**F19a chan ei ddarllen yn unol ag is-adrannau (3) i (8)**]**.

**[**F20(3) Mae cyfeiriad at un neu fwy o Aelod-wladwriaethau mewn darpariaeth sy'n gosod rhwymedigaeth ar Aelod-wladwriaeth neu Aelod-wladwriaethau neu sy'n rhoi disgresiwn i Aelod-wladwriaeth neu Aelod-wladwriaethau i'w ddarllen fel cyfeiriad at Weinidogion Cymru, Corff Adnoddau Naturiol Cymru neu awdurdod lleol a oedd, yn union cyn y diwrnod ymadael, yn gyfrifol am gydymffurfiaeth y Deyrnas Unedig â'r rhwymedigaeth honno neu'n cael arfer y disgresiwn hwnnw o ran Cymru.

(4) Mae Erthygl 2 i'w darllen fe pe bai—

(a) ym mharagraff 2—

(i) yn y geiriau o flaen pwynt (a), " **[**F21assimilated**]** law" wedi ei roi yn lle "other Community legislation";

(ii) ym mhwyntiau (b) a (c), "Regulation (EC) No 1069/2009" wedi ei roi yn lle "Regulation (EC) No 1774/2002";

(iii) ym mhwynt (d), "the Mining Waste Directive (gweler adran 17A)" wedi ei roi yn lle'r geiriau o "Directive 2006/21/EC" hyd at y diwedd;

(b) ym mharagraff 3, y geiriau o "Without prejudice" hyd at "Community legislation," wedi eu hepgor;

(c) paragraff 4 wedi ei hepgor.

(5) Mae Erthygl 5 i'w darllen fel pe bai—

(a) ym mharagraff 1, "A" wedi ei roi yn lle "Member States shall take appropriate measures to ensure that a";

(b) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff 1—

"1A. Any decision as to whether a substance or object is a by-product, must be made—

(a) in accordance with any regulations setting out detailed criteria on the application of the conditions in paragraph 1 to specific substances or objects; and

(b) having regard to any guidance published by the Welsh Ministers or the Natural Resources Body for Wales for the purposes of this Article.";

(c) paragraffau 2 a 3 wedi eu hepgor.

(6) Mae Erthygl 6 i'w darllen fel pe bai—

(a) ym mharagraff 1 "Waste" wedi ei roi yn lle "Member States shall take appropriate measures to ensure that waste";

(b) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff 1—

"1A. Any decision as to whether a substance or object has ceased to be waste must be made—

(a) in accordance with any regulations or **[**[F22]assimilated direct**]** legislation (within the meaning given to that expression in the European Union (Withdrawal) Act 2018) setting out detailed criteria on the application of the conditions in paragraph 1 to specific types of waste; and

(b) having regard to any guidance published by the Welsh Ministers or the Natural Resources Body for Wales for the purposes of this Article.";

(c) ym mharagraff 2—

(i) yr is-baragraff cyntaf wedi ei hepgor;

(ii) yn yr ail is-baragraff, "Any detailed criteria set out in guidance as referred to in paragraph 1A" wedi ei roi yn lle "Those detailed criteria";

(iii) y trydydd a'r pedwerydd is-baragraffau wedi eu hepgor;

(d) paragraff 3 wedi ei hepgor;

(e) ym mharagraff 4—

(i) yn yr is-baragraff cyntaf—

(aa) yn y frawddeg gyntaf, "Where criteria have not been set out as referred to in paragraph 1A(a) the Natural Resources Body for Wales" wedi ei roi yn lle'r geiriau o'r dechrau hyd at "Member State";

(bb) yr ail frawddeg wedi ei hepgor;

(ii) yn yr ail is-baragraff—

(aa) "The Natural Resources Body for Wales" wedi ei roi yn lle "Member States";

(bb) "by competent authorities" wedi ei hepgor.

(7) Mae Erthygl 7 i'w darllen fel pe bai—

(a) y canlynol wedi ei fewnosod o flaen paragraff 1—

"A1. In this Article, the "list of waste" means the list contained in the Annex to Commission Decision 2000/532/EC, as that list has effect in Wales.";

(b) ym mharagraff 1—

(i) y frawddeg gyntaf a'r ail frawddeg wedi eu hepgor;

(ii) "The list of waste shall, except as provided in Commission Decision 2000/532/EC, be binding as regards determination of the waste which is to be considered as hazardous waste or as non-hazardous waste." wedi ei roi yn lle'r drydedd frawddeg;

(c) paragraffau 2, 3, 6 a 7 wedi eu hepgor.

(8) Mae Atodiad 3 i'w ddarllen fel pe bai, yng nghofnod HP 9, yn yr ail frawddeg, "in the Member States" wedi ei hepgor.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F17** Geiriau yn a. 17(2) wedi eu mewnosod (22.3.2019) gan Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/414), rhlau. 1(2)(a), **2(3)**

**F18** Geiriau yn a. 17(2) wedi eu hamnewid (19.11.2020) gan Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2020 (O.S. 2020/1179), rhlau. 1(2), **2(3)**

**F19** Geiriau yn a. 17(2) wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/414), rhlau. 1(2)(b), **6(4)(a)**; 2020 c. 1, **Atod. 5 para. 1(1)**

**F20** A. 17(3)-(8) wedi ei fewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/414), rhlau. 1(2)(b), **6(4)(b)**; (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1339, rhlau 1(3), **2(2)(c)(ii)(aa)(bb)**); 2020 c. 1, **Atod. 5 para. 1(1)**

**F21** Gair yn a. 17(4)(a)(i) wedi ei amnewid (1.1.2024) gan Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2023 (O.S. 2023/1332), rhlau. 1(2), **3(a)**

**F22** Geiriau yn a. 17(6)(b) wedi eu hamnewid (1.1.2024) gan Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2023 (O.S. 2023/1332), rhlau. 1(2), **3(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I18** A. 17 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 21(2)**

## [F23 17A. Ystyr "y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio"

(1) Wrth ddarllen Erthygl 2 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yn unol ag adran 17(4), ystyr "y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio" ("*the Mining Waste Directive*(fel y'i mewnosodwyd gan baragraff (a)(iii) o adran 17(4)) yw Cyfarwyddeb 2006/21/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reoli gwastraff o ddiwydiannau echdynnu, gan ei darllen yn unol ag is-adrannau (2) i (5).

(2) Mae Erthygl 2 i'w darllen fe pe bai—

(a) ym mharagraff 2(c), y cyfeiriad at Erthygl 11(3)(j) o Gyfarwyddeb 2000/60/EC yn gyfeiriad at yr Erthygl honno o'i darllen yn unol ag is-adran (4);

(b) paragraffau 3 a 4 wedi eu hepgor**.**

(3) Mae Erthygl 3(1) i'w darllen fel pe bai "Article 3(1) of the Waste Framework Directive, as read with Articles 5 and 6 of that Directive" wedi ei roi yn lle "Article 1(a) of Directive 75/442/EEC".

(4) At ddibenion is-adran (2)(a), mae Erthygl 11(3)(j) o Gyfarwyddeb 2000/60/EC i'w darllen fel pe bai—

(a) y cyfeiriad cyntaf at "Member States" yn gyfeiriad at Weinidogion Cymru neu Gorff Adnoddau Naturiol Cymru;

(b) y canlynol wedi ei fewnosod ar y diwedd—

> "and "environmental objectives", in relation to a river basin district within the meaning of the Water Environment (Water Framework Directive) (England and Wales) Regulations 2017 has the same meaning as in those Regulations."

(5) Wrth ddarllen y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio yn unol ag is-adran (3), mae i'r cyfeiriad yn y Gyfarwyddeb honno at y "Waste Framework Directive" (fel y'i mewnosodwyd gan is-adran (3)) yr ystyr a roddir gan adran 17(2) o'r mesur hwn.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F23** A. 17A wedi ei fewnosod (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/414), rhlau. 1(2)(b), **6(5)**; 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)

## 18 Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

Mae'r Atodlen yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I19** A. 18 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 21(2)**

## 19 Gorchmynion a rheoliadau

(1) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(2) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn cynnwys pŵer–

(a) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthiadau gwahanol ar achos, ardaloedd gwahanol, personau gwahanol neu ddisgrifiadau gwahanol o berson neu ddibenion gwahanol;

(b) i beri i ddarpariaeth wahanol fod yn gymwys ar adegau gwahanol;

(c) i wneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol;

(d) i wneud darpariaethau cysylltiedig, atodol, canlyniadol, dros dro, trosiannol neu ddarpariaethau arbed fel y gwêl Gweinidogion Cymru yn dda.

F24(3) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

F24(4) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F24** A. 19(3)(4) wedi ei hepgor (11.9.2019) yn rhinwedd Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (anaw 4), a. 44(1)(e), **Atod. 2 para. 3(2)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I20** A. 19 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 21(2)**

## 20 Gorchmynion a rheoliadau: gweithdrefnau

(1) Mae unrhyw offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn neu reoliadau a wneir o dan y Mesur hwn yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(2) Nid yw is-adran (1) yn gymwys–

(a) i orchymyn o dan adran 21(1);

(b) i orchmynion a rheoliadau y mae is-adran (3) yn gymwys iddynt.

(3) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn o dan adran 3(4) neu reoliadau o dan adran 4, 5(1)(g), 6, 9, **[**[F25]9A**]** neu 14 (p'un ai ar ei ben ei hun neu ar eu pennau eu hunain neu ynghyd â darpariaethau eraill) oni fydd drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

[F26](4) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

[F26](5) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F25** Gair yn a. 20(3) wedi ei fewnosod (18.10.2023) gan Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (anaw 3), **aau. 69(5)**, 88(3)(b); O.S. 2023/1096, ergl. 2(d)

**F26** A. 20(4)(5) wedi ei hepgor (11.9.2019) yn rhinwedd Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (anaw 4), a. 44(1)(e), **Atod. 2 para. 3(3)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I21** A. 20 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 21(2)**

## 21 Cychwyn

(1) Mae adran 3 yn dod i rym yn unol â darpariaeth a wneir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

(2) Mae gweddill y darpariaethau sydd yn y Mesur hwn yn dod i rym ar ddiwedd cyfnod o ddeufis sy'n dechrau ar y diwrnod y cymeradwyir y Mesur hwn gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I22** A. 21 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 21(2)**

## 22 Enw byr

Enw'r Mesur hwn yw Mesur Gwastraff (Cymru) 2010.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I23** A. 22 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 21(2)**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 19 Chwefror 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

# YR ATODLEN

(a gyflwynwyd gan adran 18)

## MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL

*Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005*

1 (1) Mae adran 54 o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1)–

(a) yn lle "appropriate person" rhodder "Secretary of State";

(b) ym mharagraff (a), ar ôl "works" mewnosoder "in England".

(3) Yn is-adran (8), yn lle "appropriate person" rhodder "Secretary of State".

(4) Yn is-adran (9), hepgorer y geiriau o ""appropriate person"" hyd at "for Wales;".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I24** Atod. para. 1 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 21(2)**

*Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008*

2 (1) Mae Adran 98 (mynegai o ymadroddion sydd wedi eu diffinio) o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y golofn gyntaf, ar ôl ""the chair" (in Schedule 1)" mewnosoder ""children" (in Schedule 6)" ac yn y lle cyfatebol yn yr ail golofn mewnosoder "paragraph 4B(2) of Schedule 6".

(3) Yn y golofn gyntaf, ar ôl ""non-monetary discretionary requirement" (in Schedule 6)" mewnosoder ""nuisance" (in Schedule 6)" ac yn y lle cyfatebol yn yr ail golofn mewnosoder "paragraph 4B(6) of Schedule 6".

(4) Yn y golofn gyntaf, ar ôl ""participant" (in Part 3)" mewnosoder ""pollution" (in Schedule 6)" ac yn y lle cyfatebol yn yr ail golofn mewnosoder "paragraph 4B(3) of Schedule 6".

(5) Yn y golofn gyntaf, ar ôl ""the waste reduction provisions" (in section 72)" mewnosoder ""young people" (in Schedule 6)" ac yn y lle cyfatebol yn yr ail golofn mewnosoder "paragraph 4B(8) of Schedule 6".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I25** Atod. para. 2 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 21(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 19 Chwefror 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**
– s. 12 omitted by 2016 anaw 3 Sch. 2 para. 13(2)
– Sch. para. 2 omitted by 2016 anaw 3 Sch. 2 para. 13(3)